



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Perfformiad

Dyddiad: Dydd Gwener, 13 Medi
2013

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 19 MEDI 2013** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys o dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)
Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2013 (copi ynghlwm).
- 5 ARHOLIADAU ALLANOL AC ASESIAU ATHRAWON** (Tudalennau 13 - 26)
Ystyried adroddiad gan Swyddog Effeithiolrwydd Perfformiad Ysgol: Uwchradd (copi ynghlwm) i adolygu perfformiad ysgolion a pherfformiad plant sy'n derbyn gofal.
9.35 a.m. – 10.05 a.m.
- 6 CWYNIION PERFFORMIAD EICH LLAIS** (Tudalennau 27 - 32)
Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (copi ynghlwm) i archwilio perfformiad gwasanaethau i gydymffurfio â phroses gŵynion y Cyngor.
10.05 a.m. – 10.35 a.m.
- ~~~~~ **EGWYL 10.35 a.m. – 10.45 a.m.** ~~~~~
- 7 ADRODDIAD ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2012/13**
(Tudalennau 33 - 104)
Ystyried adroddiad gan Reolwr y Tîm Gwella Corfforaethol (copi ynghlwm) i werthuso perfformiad y cyngor yn ystod 2012/13.
10.45 a.m. – 11.15 a.m.
- 8 DYFODOL ADRODD PERFFORMIAD** (Tudalennau 105 - 110)
Ystyried adroddiad gan Rheolwr Gwella Corfforaethol (copi ynghlwm) ynglŷn â threfniadau ar gyfer adrodd perfformiad yn unol â'r Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol.
11.15 a.m. – 11.45 a.m.
- 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 111 - 130)
Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) ynglŷn ag adolygu rhaglen waith y pwyllgor a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.
11.45 a.m. – 12.05 p.m.
- 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**
Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr Pwyllgorau ar amryw Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.
12.05 p.m. – 12.10 p.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

William Cowie
Meirick Davies
Richard Davies
Colin Hughes
Geraint Lloyd-Williams

Peter Owen
Dewi Owens
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)

Carole Burgess
Gill Greenland
Debra Houghton

Nicola Lewis
Dr. D. Marjoram

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 20 Mehefin 2013 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Richard Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Arwel Roberts a/ac David Simmons (Cadeirydd)

Aelodau Cyfetholedig Ms D Houghton, Ms Nicola Lewis a/ac Dr D Marjoram

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Addysg (KE), Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (AS), Rheolwr Awdit (BS), Swyddog Cynorthwydd Cynllunio a Pherfformiad (CE), Cynllunio a Swyddog Perfformiad (RBM), Swyddog Gwelliant Corfforaethol (EMc), Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Cefnogi (VR), Cydlynnydd Archwilio (RE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Peter Owen, Dewi Owens a/ac Gareth Sandilands

Aelodau Cyfetholedig Carole Burgess a/ac Gill Greenland

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad personol neu ragfarnol.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 24 Mai 2013.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2013 fel cofnod cywir.

Dywedodd y Cynghorydd C Hughes, a oedd wedi methu dod i'r cyfarfod diwethaf, y byddai ganddo ddiddordeb mewn cynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Herio Gwasanaeth Cyllid ac Asedau gan nad oedd wedi'i benodi i unrhyw un o'r Grwpiau oherwydd ei absenoldeb. Cytunodd y Pwyllgor â chais y Cynghorydd Hughes a gofynnwyd i'r Cydlynnydd Craffu gysylltu â'r Cynghorydd D Owens, a oedd eisoes yn

cynrychioli'r pwyllgor ar nifer o'r Grwpiau Herio Gwasanaeth, i ofyn a oedd yn cytuno i'r Cynghorydd Hughes gymryd ei le ar y Grŵp Cyllid ac Asedau.

5 CYNLLUN GWEITHREDU ESTYN

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg (P A) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 10 Ionawr 2013 mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn dilyn yr archwiliad yn 2012.

Roedd Arolwg Estyn yn bositif iawn ac wedi gosod Sir Ddinbych ymysg y 3 awdurdod lleol gyda'r perfformiad gorau. Fodd bynnag, er mwyn gwella ymhellach, gwnaeth Estyn y ddau argymhelliad a ganlyn:-

Argymhelliad 1: Gwella cywirdeb Asesiadau Athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Roedd perfformiad Sir Ddinbych yn dda iawn ar ddiwedd addysg gynradd a hefyd ar ddiwedd addysg statudol. Fodd bynnag, sylwodd Estyn ar ostyngiad mewn perfformiad myfyrwyr rhwng cyfnodau allweddol 2 a 4. Pan roeddynt yn 7, 11, 13-14 oed aseswyd plant yn Saesneg, Cymraeg (os oedd yn ysgol cyfrwng Cymraeg), mathemateg a gwyddoniaeth a beirniadwyd perfformiad ar sail yr asesiadau hynny.

Edrychodd Estyn ar berfformiad mewn perthynas â'r ganran o brydau ysgol am ddim ac roedd perfformiad Sir Ddinbych yn rhagori ar lefel asesu prydau ysgol am ddim.

Roedd Sir Ddinbych yn ceisio gwella eu sgôr o fewn Cymru. Unwaith y byddai canlyniadau'r holl awdurdodau lleol wedi'u dadansoddi, ynghyd â chanlyniadau perfformiad athrawon, byddai'r sgoriau'n cael eu cyhoeddi. Byddai'r hinsawdd o ran asesiadau yn newid a byddai plant yn gorfod sefyll arholiadau rhifedd a llythrennedd. Roedd y camau a nodwyd yn Adroddiad Estyn, wedi'u cyflawni neu o fewn y targed i gael eu cwblhau.

Argymhelliad 2 - nodi pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a sefydlu system effeithiol i fesur effaith y gwasanaethau hyn i helpu'r Awdurdod a'i bartneriaid wybod a oedd y rhain yn cynnig gwerth da am arian.

Roedd cam Un y Prosiect Mapio Adnoddau ar gyfer y Cynllun Mawr wedi dechrau ym mis Medi 2012. Roedd pum cam i'r Prosiect. Roedd y terfyn amser ar gyfer Cam Un wedi'i ddiwygio dyddiad cwblhau disgwylidig o fis Ebrill 2014.

Codwyd y bygythiad o weithredu diwydiannol gan athrawon yn y dyfodol. Un mater o bwys a oedd wedi bod yn achos posibl dros weithredu diwydiannol yn y dyfodol oedd rheoli perfformiad. Roedd Llywodraeth Cymru'n ffafrio polisi "digyfngiad" ar y nifer o arsylwadau ar wersi oedd yn digwydd ond roedd yr undebau'n bendant yn erbyn cael polisi digyfngiad.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn fod Sir Ddinbych yn rhoi cyfarwyddyd i ysgolion fabwysiadu Polisi Llywodraeth Cymru, a oedd wedi'i weithredu. Roedd yr awdurdod lleol yn gwrthwynebu'r amhariad ar blant oherwydd y bygythiad o

weithredu diwydiannol, yn enwedig plant blwyddyn 11 a fyddai'n paratoi ar gyfer arholiadau TGAU. Roedd rhai ysgolion ar draws Cymru wedi bod yn gweithio'n unigol gydag undebau i geisio datrys y sefyllfa. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai newid pellach i'r polisi tâl y byddai'n rhaid ei gyflwyno erbyn mis Medi 2013, yn ychwanegu at y risg o aflonyddwch a gweithredu diwydiannol yn y dyfodol. Roedd Adroddiad Robert Hill hefyd yn cyfeirio at arsylwi ar wersi.

Byddai newidiadau i'r broses asesu lle byddai profion rifedd a llythrennedd yn cael eu cynnal yn achosi problem i Ysgolion Arbennig gan nad oedd disgyblion oedd yn mynd i'r ysgolion hynny yn cyd-fynd â'r meini prawf a osodwyd gan y profion. Codwyd y broblem mewn cyfarfod diweddar rhwng yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru.

Codwyd pryderon gyda Llywodraeth Cymru (LIC) ar yr effaith roedd y profion hyn yn cael ar les rhai o'r plant, gyda rhai plant wedi profi problemau sylweddol. Roedd nifer o blant yn teimlo dan bwysau wrth gymryd rhan yn y profion a oedd yn achosi problemau gyda phresenoldeb yn yr ysgol o bryd i'w gilydd. Hefyd, byddai angen dadansoddi'r effaith ar rieni. Roedd nifer o heriau o'n blaen ac roedd yn bwysig fod yr awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn agored a thryloyw.

Diolchodd Dr Dawn Marjoram i'r Pennaeth Addysg am ei hadroddiad trylwyr a'i gwybodaeth ategol. Dywedodd Dr Marjoram fod yr aelodau oedd wedi'u cyfethol ond yn mynd i gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio ar gyfer eitemau addysgol. Roedd nifer o newidiadau yn digwydd ar hyn o bryd ond teimlai nad oedd y system Archwilio yn gwneud cyfiawnder ag addysg. Mynegodd Dr Marjoram bryder nad oedd eitemau addysg wedi'u trafod yn fwy rheolaidd yn y pwyllgorau Archwilio a theimlai fod angen archwilio nifer uwch o destunau addysgol.

Cadarnhaodd y Cydlynnydd Archwilio fod testunau addysg ar Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Medi 2013 a hefyd ar gyfer Archwilio Perfformiad ym mis Medi 2013. Byddai grŵp y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion Archwilio yn cynnal cyfarfod ddydd Iau 27 Mehefin a byddai'r mater o archwilio addysg yn cael ei godi yn y Grŵp.

Cynigiodd y Pennaeth Addysg sesiwn frifio i'r aelodau Cyfetholedig i alluogi'r holl faterion presennol o fewn addysg i gael eu trafod. Gofynnodd y Cynghorydd Colin Hughes i gael ei gynnwys yn y sesiwn frifio. Cytunwyd ar hyn.

Codwyd mater y defnydd o Moodle mewn ysgolion. Roedd gan bob ysgol fynediad i Moodle ac roeddent yn cael eu hannog i ddefnyddio'r system fel platfform i rannu gwybodaeth.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg fod gwaith wedi'i wneud gyda'r Dr. Phil Bassett o Brifysgol Glyndŵr i ddatblygu protocol ar gyfer arsylwi cyfoedion. Roedd hyn wedi bod drwy LSP y Fforwm Undebau a oedd yn cyfarfod unwaith y tymor i sicrhau nad oedd unrhyw rwystrau yn codi'n ddiweddarach a byddai rhai ysgolion cynradd yn arbrofi gyda hyn. Roedd cynlluniau wedi bod i'r rhaglen fod mewn grym ar draws y sir erbyn diwedd 2014.

Roedd cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn ardal Dinbych gyda chefnogaeth Roger Rowett o Taith. Nid oedd yr adroddiad gan Roger Rowett wedi'i gyflwyno ar draws y sir. Roedd y gwaith wedi bod yn llafurddwys ac o safbwynt targedu, byddai angen ei gyflwyno fesul ardal.

Argymhellwyd y dylid cyflwyno'r mater hwn unwaith eto i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ymhen chwe mis er mwyn rhoi adroddiad diweddar. Cytunwyd ar hyn gan y byddai angen eglurhad er mwyn archwilio ymhellach.

Roedd Ysgol Tir Morfa, y Rhyl wedi bod gerbron aelodau o'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion (SSMG). Nodwyd fod Tir Morfa yn ysgol dda iawn, ac roedd Aelodau'r Grŵp wedi'u plesio'n fawr iawn. Argymhellwyd felly y byddai llythyr yn cael ei anfon i Tir Morfa er mwyn eu llongyfarch ar eu gwaith da.

Dywedodd y Pennaeth Addysg, oherwydd diwygiadau lles, y gallai dangosyddion newid o safbwynt prydau ysgol am ddim. Roedd athrawon yn ceisio annog rhieni i lenwi ffurflenni prydau ysgol am ddim.

Gan fod nifer o swyddogion profiadol wedi ymddeol yn ddiweddar, a bod gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi'i sefydlu, mynegwyd pryder ynglŷn â safon y swyddogion newydd. Cadarnhawyd fod proses ansawdd drwyadl mewn grym i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad a*
- (ii) Bod y Pwyllgor yn cytuno bod angen monitro pellach ar weithrediad y cynllun gweithredu ymhen chwe mis i gael diweddariad pellach.*

6 ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: CHWARTER 4 2012/13

Mae'r Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (P:CB&Ph) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad ar ddarparu Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 4, 2012-13.

Roedd Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'n galluogi i archwilio'r pwyntiau allweddol a'u codi yn y Cabinet wedi hynny.

Roedd adroddiad Cynnydd Chwarterol presennol y Cynllun Corfforaethol yn edrych ar chwarter 4 2012/13 hyd at ddiwedd Mawrth 2013.

Rhoddodd y P:CB&Ph grynodedb o'r meysydd a nodwyd yn yr adroddiad fel "blaenoriaeth ar gyfer gwella".

Codwyd a materion canlynol yn dilyn trafodaeth:

- (i) Roedd angen gwaith ar nifer o ffyrdd ystâd. Gofynnwyd am gadarnhad a fyddai'r ffyrdd hyn yn cael eu dosbarthu'n ffyrdd C. Cadarnhaodd y P:CB&Ph y byddai'n gofyn am eglurhad ar hyn ac adrodd yn ôl.
- (ii) Gofynnwyd am gynllun o'r gwaith cyrbau is. Cadarnhaodd y P:CB&Ph y byddai'n cael yr wybodaeth gan Priffyrdd. Awgrymwyd y gallai'r aelod cyswllt gyda phriffyrdd gynorthwyo gyda'r mater hwn. Cadarnhaodd y Cynghorydd Bill Cowie, Aelod Cyswllt y byddai'n cysylltu â Mike Hitchings, y Rheolwr Priffyrdd ategol i drefnu cyfarfod.
- (iii) Roedd y diffyg ar y llefydd ysgol gynradd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdodau lleol.
- (iv) Roedd y ffaith na allai canran o'r boblogaeth o oedolion fyw'n annibynnol hefyd yn broblem. Roedd hwn yn gynllun tymor hir ond nid oedd disgwyl iddo symud o'r coch am beth amser.
- (v) Cyflwynodd Vince Russell, Rheolwr Gwella Gwasanaeth, Priffyrdd a Pharthau Cyhoeddus, ei hun fel cynrychiolydd Steve Parker, Pennaeth yr Amgylchedd. Dywedodd fod cynnydd wedi bod yn y nifer o achosion o dipio anghyfreithlon a riportiwyd yn ffurfiol 680 yn 2009/10 i 2500 y flwyddyn ganlynol. Y System fewnfwydo data ar gyfer achosion i'w cofrestru oedd y system RhCC (Rheoli Cyswllt Cwsmer). Deliwyd ag achosion o dipio anghyfreithlon ar y diwrnod y rhoddwyd gwybod amdanynt ond gallai gymryd hyd at bum niwrnod i gau'r achos ar y system RhCC. Golygai hyn nad oedd data'n cael ei fonitro'n gywir. Cadarnhaodd yr H&SO y byddai'n rhoi gwybod i'r Pennaeth Amgylchedd fod Aelodau wedi mynegi pryder ynglŷn â'r oedi o ran mewnfwydo data.
- (vi) Roedd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn llunio ymagwedd cyngor cyfan tuag at strydoedd glân. Deliwyd ag achosion o dir blêr o fewn 12 wythnos ar gyfartaledd. Neilltuwyd swyddogion allweddol i bob safle unigol. Byddem yn cysylltu â'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i gyflenwi rhestr i'r Pwyllgor o safleoedd sy'n "ddolur llygad".

Atgoffwyd aelodau'r Pwyllgor o'u swyddogaethau fel arweinwyr perfformiad ar gyfer gwahanol wasanaethau'r Cyngor a phwysigwyd cyflawni'r swyddogaeth honno pan ei bod yn ymddangos fod dirywiad ym mherfformiad y Gwasanaeth roeddent yn ymwneud ag o neu wrth herio'r gwasanaeth i sicrhau fod blaenoriaethau / gweithredoedd yn cael eu cyflawni e.e. gwella cyfleusterau ysgolion a gostwng y nifer o ystafelloedd dosbarth symudol.

Cytunodd y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad i gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor ar adroddiad perfformiad y Cynllun Corfforaethol i gyfarfod nesaf y Cabinet.

PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad yn amodol ar yr uchod.

Ar y pwynt hwn (10.50 am) cafwyd toriad.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11:05am.

Ar y pwynt hwn, cododd y Cynghorydd Colin Hughes y mater o bresenoldeb Aelodau Arweiniol yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Archwilio. Dywedodd y Cynghorydd, fod yr ymarferiad Grŵp Cyfoedion gyda Wrecsam a Sir y Fflint wedi dangos ei bod yn arfer da iawn i'r Aelod Arweiniol gyflwyno'r adroddiadau gyda'r swyddogion yn cyflawni rôl gefnogi.

Dywedodd y Cadeirydd, os oedd Aelodau'n dymuno i Aelod Arweiniol fod yn bresennol yn y dyfodol, dylent gysylltu â'r Cydlynnydd Archwilio i drefnu gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu y byddai adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cael ei lansio ar 28 Tachwedd 2013. Byddai'r adroddiad asesu cyfoedion a gynhyrchwyd gan Sir y Fflint yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio ar 27 Mehefin 2013.

7 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad (P:CB&Ph) adroddiad yn cyflwyno fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risg Gorfforaethol, fel y cytunwyd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol (TGC).

Cynhyrchwyd cofrestr risg gan bob gwasanaeth ar gyfer eu cynllun gwasanaeth eu hunain. Roedd sawl risg yn effeithio nid yn unig y gwasanaeth unigol ond y Cyngor yn gyffredinol.

Roedd proses ar waith lle cynhaliwyd adolygiad dwywaith y flwyddyn. Pe bai risgiau yn codi yn y cyfamser, byddent yn cael eu cyflwyno ar unwaith i'r TGC ac yn cael eu hychwanegu wedyn i'r gofrestr risg.

Rhoddodd y P:CB&Ph grynodedb o'r prif newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:

- (i) Nid oedd gwiriadau CRB yn bodoli bellach. Byddai'r CRBs yn cael eu disodli gan y GDG (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
- (ii) Roedd swyddogion wedi rhoi gwybod i Aelodau nad oedd unrhyw safle digon mawr yn Sir Ddinbych ar gyfer y carchar mawr posibl. Roedd swyddogion y Cyngor wedi darparu gwybodaeth fod safle Ysbyty Gogledd Cymru ond yn 43 erw. Fodd bynnag, roedd Cyngor Tref Dinbych wedi cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac wedi tynnu eu sylw at y ffaith y gallai tir cyfagos i hen safle Ysbyty Gogledd Cymru fod wedi'i ryddhau i gynyddu maint y safle i 75 erw a allai fod wedi bod yn ddigonol i'r carchar mawr newydd.

Rhoddwyd eglurhad i'r Pwyllgor mai Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac nid Bwrdd Uchelgais Rhanbarthol Gogledd Cymru oedd wedi delio â mater y carchar ac wedi penderfynu o blaid safle Wrecsam.

Ail bwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol fod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor llawn a fyddai wedi bod yn gyfle i gynnig hen safle Ysbyty Gogledd Cymru. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i gymeradwyo safle Wrecsam.

Mynegodd Aelodau bryderon difrifol gan eu bod yn credu nad oedd swyddogion wedi rhoi eu manylion llawn ac, felly, nid oedd y mater wedi derbyn ystyriaeth ddigonol.

Mewn ymateb i gais yr aelodau, cadarnhaodd y Cydlynnydd Archwilio y byddai'n cael gafael ar adroddiad yn ogystal â gohebiaeth yn ymwneud â'r mater a chylchredeg yr wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor. Yn dilyn dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarparwyd, byddent yn penderfynu a ddylid gwahodd swyddogion perthnasol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn y dyfodol i esbonio eu gweithredoedd.

Holodd Aelodau a ddylai'r risg yn ymwneud ag Arian Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif ymddangos ar Gofrestr y Cyngor gan fod argaeledd yr arian hwn ym mhell y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn:-

- (i) *nodir hyn a ddilëwyd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a'r ychwanegiadau a'r newidiadau iddi, ac*
- (ii) *yn amodol ar dderbyn yr adroddiad a gohebiaeth yn ymwneud â'r darpar safle ar gyfer y carchar mawr, dylid cylchredeg yr wybodaeth i Aelodau i'w harchwilio.*

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.

- (i) Byddai swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio yn fuan. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud o ran pa Bwyllgor y byddai angen cyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol iddo. Gan ddibynnu ar ganlyniad y cyfarfod, mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r Cylch Gorchwyl a'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad.
- (ii) Yn dilyn y Fforwm Ddwieithrwydd a gynhaliwyd yn ddiweddar, codwyd mater gwasanaeth cyfieithu Conwy. Roedd hyn oherwydd y ffaith ei bod yn ymddangos fod safon y cyfieithiadau wedi gostwng a hefyd ei bod yn ymddangos ei bod yn cymryd hirach i gyfieithu'r papurau. Holwyd pam y gwaned y penderfyniad i newid o'r gwasanaeth cyfieithu gwreiddiol i wasanaeth cyfieithu Conwy? A oedd hyn er mwyn arbed costau? Argymhellwyd y dylid trafod y mater yn y Grŵp Cadeiryddion ac Is-

Gadeiryddion Archwilio ac yna y dylid ei gyflwyno yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

- (iii) Gofynnodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden i ohirio'r eitem ar yr "Adolygiad o Gyhoeddiadau'r Cyngor" nes cyfarfod arall yn y dyfodol. Yn anffodus, oherwydd egwyl yr haf ac ymrwymadau'r rhaglen waith ni all y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ar eu rhaglen o faterion nes y cyfarfod ym mis Hydref. Gan fod y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden fod i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Medi ar y broses o ailstrwythuro ei Adran, argymhellwyd y dylid cyfuno'r ddau destun i un adroddiad a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 12 Medi 2013.
- (iv) Mae pum eitem wedi eu cynnwys ar raglen waith cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Medi. Trafodwyd a chytunwyd y dylai materion "Trwyddedu" gael eu symud o gyfarfod mis Medi i gyfarfod mis Hydref 2013.
- (v) Yn dilyn erthygl a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y Daily Post dan y teitl "the missing millions of unpaid Council Tax," cytunwyd y byddai adroddiad gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol. Pe bai materion yn codi o'r adroddiad, bydd angen penderfynu a ddylid gwahodd swyddogion i'r cyfarfod i roi eglurhad ar y broblem hon.
- (vi) Dylid cynnwys cyrbau is ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer mis Hydref 2013.
- (vii) Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai'r Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, yn cael ei wahodd ar gyfer yr eitemau ar "gyrbau is" "Teledu Cylch Caeedig" a "Thrwyddedu" ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ym mis Hydref a byddai'r Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, yn cael ei wahodd i'r cyfarfodydd ym mis Medi 2013 a mis Ionawr 2014 ar gyfer yr eitemau addysgol.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cydlynnydd Craffu am wirfoddolwr i fynd i'r Fforwm Rhianta Corfforaethol. Byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter blwyddyn, gyda'r cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ym mis Medi a mis Rhagfyr. Cytunodd Aelodau y dylai'r Cydlynnydd Archwilio gysylltu â'r Cynghorydd Gareth Sandilands i ddarganfod a fyddai'n barod i wirfoddoli.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau, ychwanegiadau a'r cytundebau uchod.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Hoffai'r Cynghorydd Richard Davies ddiolch y Cynghorydd Colin Hughes am ei waith caled fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynigiodd ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd David Simmons ar gael ei ethol yn Gadeirydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Medi 2013
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Addysg/ Pennaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion - Uwchradd
Teitl:	Adolygu perfformiad ysgolion a pherfformiad plant dan ofal

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Perfformiad ysgolion ym mhob cyfnod allweddol a chanlyniadau arholiadau allanol dros dro yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Bydd dadansoddiad manwl o ganlyniadau cael eu darparu ar gyfer aelodau'r pwyllgor pan fyddant wedi eu gwirio ac y bydd gwybodaeth meincnodi ar gael ym mis Rhagfyr.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth ynghylch perfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr aelodau yn adolygu perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn gwneud sylwadau yn unol â hynny.

4. **Manylion am yr Adroddiad. Canlyniadau Asesiadau Athrawon**

4.1 **Cyfnod Sylfaen**

Mae'r model asesu presennol wedi bod ar waith ers 2012 ar gyfer disgyblion 7 oed, maent yn cael eu hasesu mewn datblygiad llythrennedd a mathemategol yn ogystal â datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r asesiadau athrawon wedi codi o'r 11eg yng Nghymru yn 2012 i 8fed yn 2013. Mae hyn wedi cynyddu o 81.9% yn 2012 i 84.9% yn 2013 ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen.

Mae'r holl asesiadau a safle trwy Gymru wedi gwella eleni, ac eithrio ar gyfer safle Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Saesneg a Chymraeg, sydd wedi gostwng o'r 10fed a'r 4ydd safle yn eu trefn yn 2012 i 11eg a 6ed y flwyddyn hon. (Atodiad 1)

4.2 Canlyniadau Asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 2 (CA2)

Ar ddiwedd addysg cyfnod cynradd CA2 (blwyddyn 6), disgwylir i ddisgyblion gyrraedd Lefel 4 Aseiad Athro.

Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) wedi codi o 12fed yn 2012 i 9fed yng Nghymru yn 2013, sef gwelliant o 83.5% yn 2012 i 86% yn 2013. Mae'r holl asesiadau, ac eithrio ar gyfer Cymraeg, wedi codi ers y llynedd, gyda Chymraeg yn llithro o 90% a'r 2il yng Nghymru i 88% i safle 14eg. Cymraeg Ail Iaith sydd â'r cynnydd mwyaf yn 2013, gan wella o 3.5% o 66.2% yn 2012 i 69.7% yn 2013, mae wedi gostwng 3 safle i 11eg yng Nghymru yn 2013. (Atodiad 1)

4.3 Canlyniadau Asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 3 (CA3)

Ar ddiwedd CA3 (Blwyddyn 9) mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd Lefel 5 Aseiad Athro.

Bu i'r holl asesiadau allweddol wella yng Nghyfnod Allweddol 3 ar gyfer chweched flwyddyn yn olynol, fodd bynnag, mae safle Sir Ddinbych wedi cwmpo ar gyfer pob aseiad ar wahân i Saesneg yn 2013. Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) wedi codi o 72.5% yn 2012 i 75% yn 2013; mae'r safle wedi cwmpo o'r 14eg i'r 15fed yng Nghymru yn 2013. (Atodiad 1)

Mae'r safleoedd uchaf ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn y 14eg safle yng Nghymru, a'r isaf ar gyfer Cymraeg sydd yn y 17eg safle. Cymraeg Ail Iaith sydd wedi cael y cynnydd mwyaf, 68.2% yn 2012 i 72.6% yn 2013, fodd bynnag, wedi gostwng o'r 9fed safle i'r 16eg.

4.4 Arholiadau Allanol Cyfnod Allweddol 4 (TGAU ac arholiadau galwedigaethol cyfatebol)

Mae trothwyon Lefel 1 a 2 yn parhau i wella am y chweched flwyddyn yn olynol. Mae'r Trothwy Lefel 2 (5 *A-C neu gyfwerth) wedi gwella dros dro o 82.69% yn 2012 i 84.4% yn 2013, yn 2012 roedd Sir Ddinbych y 1af yng Nghymru. Mae Trothwy Lefel 1 wedi gwella ychydig o 93.1% yn 2012 i 93.7% yn 2013.

Mae Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/ Cymraeg wedi gostwng ychydig o 54.3% yn 2012 i 53.23% yn 2013, gydag ail-farcio, mae'n debygol y byddwn yn cyd-fynd neu'n gwneud yn well na pherfformiad 2012.

Mae'r duedd genedlaethol mewn cyrhaeddiad mewn Saesneg 62% (-.4%) a Mathemateg 52.8% (-2.7%) wedi dirywio. Yn Sir Ddinbych, mae Saesneg yn parhau i fod yn sefydlog ar 64.2% ac mae Mathemateg wedi gostwng i 61.1% o 63.7%, mae hyn yn is na'r duedd genedlaethol. (Atodiad 2)

Mae'r holl ganlyniadau yng nghyfnod allweddol 4 yn rhai dros dro, bydd canlyniadau wedi eu gwirio ar gael o fis Tachwedd a data wedi'i feincnodi ym mis Rhagfyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu data am werth a ychwanegwyd ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion yn y Setiau Data Craidd.

4.5 Canlyniadau trothwy Lefel 3 (Lefel A a chanlyniadau galwedigaethol cyfatebol)

Y dangosydd perfformiad ar gyfer ôl-16 yw'r Trothwy Lefel 3 sy'n cyfateb i 2 lefel A neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol. Mae canran yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd Trothwy Lefel 3 wedi gwella o 98% yn 2012 i 99% yn 2013. Mae canlyniadau mwy manwl yn Atodiad 3.

Dros dro mae canlyniadau Lefel A wedi gwella eleni yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Cafodd mwy o fyfyrwyr raddau A*-C, gan wella i 77.7% eleni, mae hyn 1.0% yn uwch na 2012.

Bu gwelliant mewn disgyblion yn cyrraedd y graddau uchaf o A ac A*, hyd at 22.1% sydd bron 2% yn uwch na 2012, ond mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 22.9%. Gostyngodd nifer y disgyblion a gafodd Fagloriaeth Cymru ychydig o 172 yn 2012 i 170 yn 2013.

Cododd nifer y myfyrwyr yn Sir Ddinbych a oedd wedi eu cofrestru ar gyfer cymwysterau ôl-16 yn 2013 i 463 o'i gymharu â 439 yn 2012. Mae canlyniadau gwell yn CA4 a gwaith partneriaeth ôl-16 wedi cyfrannu at y cynnydd hwn.

Mae perfformiad myfyrwyr yn 6ed y Rhyl wedi gwella eleni gyda 33 o fyfyrwyr yn cyrraedd Trothwy Lefel 3, dau ohonynt yn cael A* yn y Lefel A.

Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar ar gyfer dadansoddiad manwl o asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ar gyfer Plant Dan Ofal (PDO). Fodd bynnag, mae'r arwyddion cynnar yn dangos allan o'r 9 o fyfyrwyr ym mlwyddyn 11 mewn ysgolion uwchradd, bod 1 wedi cael Lefel 2 gan gynnwys, S/ C & M a 3 yn y Trothwy L2, cafodd pob un o leiaf un TGAU neu gymhwyster galwedigaethol.

5. Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Yn 2013, am y tro cyntaf eisteddodd yr holl ddysgwyr cymwys mewn ysgolion gwladol Brofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer pob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 (7 -13 oed). Eleni, roedd angen i ddysgwyr gymryd y Prawf Darllen Cenedlaethol ac elfen weithdrefnol y Prawf Rhifedd Cenedlaethol.

Yn y prawf darllen Saesneg cafodd Sir Ddinbych yr 11eg safle yng Nghymru ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd y ganran gan gael sgôr safonedig o 85+. Cafodd Sir Ddinbych 85.9% sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 85.4%. Mae gan yr ALI yr 8fed isaf o ddisgyblion â sgoriau llai na 85%.

Mae'r ALI yn y 6ed safle ar gyfer Cymraeg gyda 93.4% sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 90.7%. Mae gan Sir Ddinbych y 5ed isaf o ddisgyblion â sgoriau o dan 85% yn y prawf Cymraeg ar 5.3% yn is na chyfartaledd Cymru o 7.2%.

Yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol Rhanbarthol oedd yr ALI yn yr 8fed safle ar 85.4% ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 83.9%. Sir Ddinbych sydd â'r 5ed nifer isaf o ddisgyblion gyda sgoriau o dan 85% yn y prawf rhifedd ar 11.1%, yn is na chyfartaledd Cymru o 13%. Nid oes unrhyw ddata ar lefel ysgol ar gael ar hyn o bryd. Atodiad 4.

6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol yn un o'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae codi cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig cyfnod allweddol 4 yn amcan allweddol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Bydd y gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched a grwpiau lleiafrifol yn cael ei ddadansoddi unwaith y bydd setiau Data Craidd Cymru Gyfan yn cael eu cyhoeddi.

8. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amh

9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

I leihau unrhyw risgiau i gefnogaeth ysgolion a her yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg o fewn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gefnogaeth ranbarthol oddi wrth GwE (y gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol).

Mae cyfle i swyddogion sy'n gweithio ar gyfer y rhanbarth i gryfhau'r broses safoni ar gyfer Asesiadau Athrawon CA3. Dylai hyn wella ansawdd y safoni allanol ar draws Gogledd Cymru.

Dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros dangyflawni a thargedu cefnogaeth i ysgolion sy'n tanberfformio gan yr awdurdod lleol (ALI) a GwE. Monitro tanberfformio ac ysgolion risg uchel yn ofalus.

Ansicrwydd parhaus ynglŷn â pharhad y Grant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 'Potensial' ar ôl 2014 sydd wedi cefnogi gwelliannau yn llwyddiannus yn CA4.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswilt:

Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion - Uwchradd

Ffôn: 01824 708026

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Assessments and Examinations Rankings 2009 - 2013

Appendix 1

		Denbighshire 2009		Denbighshire 2010		Denbighshire 2011		Denbighshire 2012		Denbighshire 2013	
		%	Ranking	%	Ranking	%	Ranking	%	Ranking	%	Ranking
ASSESSMENTS											
Foundation Phase (Outcome 5+)	PSD							90.5	15	94.9	5
	LCE							84.0	10	85.9	11
	LCW							88.4	4	89.8	6
	MDT							88.6	9	89.6	7
	FPI							81.7	11	84.9	8
Key Stage 1 (Level 2+)	English	86.2	5	84.8	5	80.9	17				
	Welsh	89.8	13	90.7	10	89.7	17				
	Maths	88.9	6	89.1	7	86.7	18				
	Science	90.8	6	90.0	15	89.0	18				
	CSI	83.2	6	82.4	9	79.8	18				
Key Stage 2 (Level 4+)	English	80.9	14	82.0	12	85.1	8	85.6	14	88.1	9
	Welsh	81.9	14	83.4	11	85.5	10	90.0	2	88.0	14
	Maths	82.3	12	82.7	15	86.9	6	87.7	12	89.1	5
	Science	86.8	10	86.1	14	90.5	4	90.4	9	92.3	5
	Welsh 2nd			48.9	5	62.4	3	66.2	8	69.7	11
	CSI	76.8	12	78.1	12	82.3	6	83.5	12	86.0	9
Key Stage 3 (Level 5+)	English	70.8	11	72.9	12	74.3	17	79.3	16	82.5	14
	Welsh	68.4	14	75.8	10	77.0	14	84.2	13	85.7	17
	Maths	71.0	15	75.8	11	77.0	15	81.1	12	82.9	14
	Science	73.7	16	76.6	13	78.4	17	83.6	10	86.0	14
	Welsh 2nd	54.3	14	62.5	10	65.6	12	68.2	9	72.6	16
	CSI	59.8	8	63.9	13	65.5	17	72.5	14	75.0	15

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 2

Provisional Denbighshire Level 2 (GCSE) Results 2013

	2011	2012	Level 2EW&M			Level 2			Level 1		
Rhyl High School	36.00%	44.72%	132	67	50.8	132	120	90.9	132	128	97.0
Prestatyn HS	50.00%	52.59%	276	126	45.7	276	256	92.8	276	272	98.6
Ysgol Glan Clwyd	66.00%	67.56%	168	111	66.1	168	164	97.6	168	168	100.0
Denbigh HS	41.00%	49.59%	138	68	49.3	138	86	62.3	138	133	96.4
Ysgol Dinas Bran	60.00%	58.00%	152	85	55.9	151	151	100.0	152	152	100.0
Ysgol Brynhyfryd	68.00%	70.87%	201	137	68.2	201	176	87.6	201	198	98.5
Blessed Edward J	37.00%	39.47%	81	35	43.2	81	57	70.4	80	70	87.5
St Brigid's School	75.00%	72.00%	55	39	70.9	55	48	87.3	55	54	98.2
Special/PRU	0	0	52	0	0.0	52	0	0.0	52	0	0.0
Total	52.55	54.55	1,255	668	53.23	1,254	1058	84.4	1,254	1175	93.7

Tudalen 23

	A*-A	A*-C	A*-G
DCC	19	67.4	99
Wales	19.2	65.7	98.7

DCC 2012		
Welsh		69.7
English		64.2
Maths		63.7

	Maths			English			Welsh		
Rhyl High School	132	84	63.6	132	76	57.6	0	0	0.0
Prestatyn HS	276	154	55.8	276	161	58.3	0	0	0.0
Ysgol Glan Clwyd	168	130	77.4	168	115	68.5	167	111	66.5
Denbigh HS	138	79	57.2	138	86	62.3	0	0	0.0
Ysgol Dinas Bran	153	91	59.5	153	114	74.5	10	5	50.0
Ysgol Brynhyfryd	201	144	71.6	201	157	78.1	68	59	86.8
Blessed Edward J	80	42	52.5	80	47	58.8	0	0	0.0
St Brigid's School	55	41	74.5	55	50	90.9	0	0	0.0
Special/PRU	52	2	3.8	52	0	0.0	0	0	0.0
Total	1,255	767	61.1	1,255	806	64.2	245	175	71.4
Wales			52.8			62.4			

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CRYNODEB POB YSGOL - HAF 2013
SUMMARY BY SCHOOL - SUMMER 2013 - PROVISIONAL RESULTS

		%A*-C			%A*-E			%A*+A			%A*		
		2011	2012	2013	2011	2012	2013	2011	2012	2013	2011	2012	2013
68115	St Brigid's School	87.5%	81.7%	80.7%	100.0%	100.0%	97.6%	29.7%	14.6%	32.5%	7.8%	6.1%	2.4%
68116	Denbigh High School	65.0%	76.3%	62.2%	95.0%	95.0%	94.1%	18.6%	13.8%	8.4%	2.9%	6.3%	5.9%
68138	Ysgol Dinas Bran	71.4%	80.5%	82.7%	98.0%	99.4%	99.4%	18.4%	23.4%	23.5%	4.1%	5.2%	2.8%
68148	Prestatyn High School	62.6%	69.0%	68.4%	95.7%	99.3%	96.5%	18.2%	13.4%	18.4%	0.6%	1.8%	4.3%
68165	Ysgol Brynhyfryd	84.6%	80.9%	84.3%	99.6%	100.0%	100.0%	33.1%	30.0%	30.2%	13.4%	5.5%	5.7%
68171	Ysgol Glan Clwyd	78.6%	78.4%	77.8%	100.0%	98.8%	100.0%	19.0%	22.8%	18.6%	3.6%	7.4%	5.4%
	Denbighshire	73.0%	76.7%	76.6%	97.7%	98.9%	98.1%	22.5%	20.4%	22.3%	5.2%	4.8%	4.6%
	WALES	N/A	N/A	N/A	97.2%	97.6%	97.6%	23.9%	23.6%	22.9%	6.3%	6.0%	6.0%

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Table 4: National Numeracy Test results, by LA and result, 2013
Including ranking of % achieving standardised score of 85 and above

National Numeracy Test - Procedural Component							National Numeracy Test Ranked by % achieving standardised score of 85 and above		
Local Authority	Disapp lied	Absent during test	Less than 85	Betw een 85 and 115	Greater than 115	Cohort	Rank	Local Authority	85 and above
	%	%	%	%	%			Local Authority	%
Isle of Anglesey	1.6	1.2	7.5	65.6	24.1	5,373	1	Isle of Anglesey	89.7
Gw ynedd	1.2	1.2	9.4	68.2	19.9	9,943	2	The Vale of Glamorgan	89.4
Conw y	1.2	1.4	14.7	69.1	13.6	8,830	3	Gw ynedd	88.1
Denbighshire	2.6	1.0	11.1	71.1	14.3	8,679	4	Monmouthshire	87.6
Flintshire	1.0	1.9	13.0	69.1	15.0	13,214	5	Pow ys	87.1
Wrexham	2.6	2.3	13.2	66.8	15.1	11,182	6	Ceredigion	87.0
Pow ys	1.3	1.0	10.5	70.4	16.7	10,701	7	Carmarthenshire	85.7
Ceredigion	1.2	0.7	11.2	69.1	17.9	5,328	8	Denbighshire	85.4
Pembrokeshire	1.6	1.1	12.5	69.1	15.7	10,005	9	Pembrokeshire	84.8
Carmarthenshire	1.6	1.5	11.3	68.2	17.5	15,282	10	Flintshire	84.1
Sw ansea (a)	1.9	1.5	12.6	66.6	17.4	19,643	11	Sw ansea (a)	84.0
Neath Port Talbot (a)	1.6	1.5	14.1	68.4	14.4	11,687	12	Bridgend	83.6
Bridgend	2.1	1.6	12.7	68.9	14.7	12,284	13	Cardif f (a)	83.4
The Vale of	1.1	1.2	8.2	67.1	22.3	11,784	14	New port (a)	83.1
Rhondda Cynon Taf	1.8	1.7	14.3	68.8	13.4	21,010	15	Neath Port Talbot (a)	82.8
Merthyr Tydf il	1.9	1.1	17.8	67.8	11.4	5,052	16	Conw y	82.7
Caerphilly	0.8	1.9	15.4	67.7	14.2	16,131	17	Rhondda Cynon Taf	82.2
Blaenau Gw ent (a)	0.9	2.1	19.3	68.0	9.7	5,537	18	Caerphilly	81.9
Torf aen	0.8	2.0	15.9	68.6	12.7	8,470	19	Wrexham	81.9
Monmouthshire	1.0	1.0	10.3	67.7	19.9	6,722	20	Torf aen	81.3
New port (a)	1.6	1.7	13.6	66.0	17.1	13,143	21	Merthyr Tydf il	79.2
Cardif f (a)	0.9	1.5	14.2	65.9	17.5	27,703	22	Blaenau Gw ent (a)	77.7
Wales (a) (b)	1.5	1.5	13.0	67.8	16.1	258,623		Wales (a) (b)	83.9

(a) One school in each of Swansea, Neath Port Talbot, Blaenau Gwent and Newport failed to provide numeracy test data. Three schools in Cardiff failed to provide numeracy test data.

(b) Includes Independent schools that provided their results.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Medi 2013
Swyddog Arweiniol:	Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad :	Swyddog Cwynion Corfforaethol
Teitl:	Eich Llais – Adroddiad Chwarter 1 2013/14

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r ganmoliaeth, awgrymiadau a chwynion y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi eu derbyn dan 'Eich Llais' (polisi adborth cwsmeriaid y cyngor) yn ystod Chwarter 1 2013/14.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â materion perfformiad a gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r rhain yn briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Pwyllgor nodi a rhoi sylwadau ar berfformiad y gwasanaethau.

4. Manylion am yr adroddiad

Penawdau Chwarter 1 (gwelwch yr atodiadau am fwy o wybodaeth).

- Bu i'r Gwasanaethau Amgylcheddol dderbyn y nifer mwyaf o ganmoliaeth a chwynion.
- Roedd 64% o'r cwynion yn ymwneud â 'gwasanaeth' gan gynnwys cwynion ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau, cyfnod amser gwasanaethau ac amseroedd agor.
- Ymatebwyd i 97% o'r cwynion o fewn y terfyn amser (y targed corfforaethol yw 95%).
- Deliwyd â 86% o'r cwynion yn ystod cam 1.
- Nid oes yr un maes gwasanaeth wedi derbyn statws COCH.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cynllun Eich Llais yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod gorfforaethol: Cyngor rhagorol, sy'n agos at ei gymuned.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r holl gostau sydd ynghlwm wrth adborth cwsmeriaid wedi eu cynnwys yn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?

Amherthnasol.

8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Rhoi gwybod yn fisol i'r Uwch Dîm Gweithredol. Rhoi gwybod yn flynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Trwy beidio ag ymdrin â chwynion yn effeithiol, gall enw da'r Cyngor ddiodeff.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae erthygl 6.3.4(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau'r Pwyllgor mewn perthynas â chraffu ar berfformiad yn gyffredinol a pherfformiad meysydd gwasanaeth penodol.

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Cwynion Corfforaethol

Ffôn: 01824 706169

Gwybodaeth Eich Llais

A1 Cyfnodau rhoi gwybod Eich Llais

A1.1 Defnyddir y cyfnodau a ganlyn ar gyfer rhoi gwybod am ddata mewn perthynas ag 'Eich Llais':

Chwarter 1: 1 Ebrill i 30 Mehefin
 Chwarter 2: 1 Gorffennaf i 30 Medi
 Chwarter 3: 1 Hydref i 31 Rhagfyr
 Chwarter 4: 1 Ionawr i 31 Mawrth

A2 Graddfeydd amser ymateb i gwynion

A2.1 Mae'r polisi adborth 'Eich Llais' yn nodi y dylid cadw at y graddfeydd amser a ganlyn wrth ymateb i gwynion:

Cam 1: **10** diwrnod gwaith
 Cam 2: **25** diwrnod gwaith
 Cam 3: **15** diwrnod gwaith

A3 Mesurau perfformiad Eich Llais

A3.1 Defnyddir system goleuadau traffig i amlygu perfformiad mewn perthynas â'r graddfeydd amser ymateb i gwynion. Bydd perfformiad yn cael ei sgorio yn unol â:

Coch	Llai na 80% o'r cwynion wedi'u hateb o fewn y graddfeydd amser
Oren	Mwy na 80% o'r cwynion, ond llai na 90% wedi'u hateb o fewn y graddfeydd amser
Melyn	Mwy na 90% o'r cwynion, ond llai na 95% wedi'u hateb o fewn y graddfeydd amser
Gwyrdd	Mwy na 95% o'r cwynion wedi'u hateb o fewn y graddfeydd amser

A3.2 Er mwyn helpu i ganfod a yw perfformiad maes gwasanaeth wedi newid o'r cyfnod(au) blaenorol, datblygwyd yr allwedd a ganlyn:

Symbol	Dynodiad
▲	Gwelliant mewn perfformiad
▼	Dirywiad mewn perfformiad
◀	Dim newid mewn perfformiad
–	Dim data ar gyfer y cyfnod i'w gymharu

Atodiad 2

Maes Gwasanaeth	Cyfuniad 2012/13				Chwarter 1 (13/14)				
	Cafwyd	O fewn	%	Statws	Cafwyd	O fewn	%	Statws	
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	0	0	Amh.	-	0	0	Amh.	-	-
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	3	3	100%	G	2	2	100%	◀	G
Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg	25	24	96%	G	8	8	100%	◀	G
Yr Amgylchedd	201	198	99%	G	38	36	95%	▼	G
Cyllid ac Asedau	24	19	79%	C	10	10	100%	▲	G
Tai a Datblygu Cymunedol	90	79	88%	O	17	16	94%	▲	M
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	66	65	98%	G	8	8	100%	◀	G
Priffyrdd ac Isadeiledd	100	84	84%	O	22	21	95%	▲	G
Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden	45	44	98%	G	10	10	100%	▲	G
Addysg	1	1	100%	G	2	2	100%	◀	G
Arall	5	2	40%	C	0	0	-	-	-
Cyfanswm	560	519	93%	M	117	113	97%	▲	G

Tabl 1: Amseroedd ymateb cyffredinol i gwynion ar gyfer Chwarter 1

Ch1	Nifer	O fewn	%
Cam 1	101	100	99%
Cam 2	12	10	83%
Cam 3	4	3	75%
¹ OGCC	0	0	-
Cyfanswm	117	113	97%

Tabl 2: Amseroedd ymateb corfforaethol ar gyfer pob cam cwynion yn ystod Chwarter 1

¹ Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Crynodeb Cwynion a Dderbyniwyd

Mis	Gwasanaethau Oedolion a Busnes					Gwasanaethau Plant a Theuluoedd					Corfforaethol					Cyffredinol		
	Nifer y cwynion	Nifer o fewn amser	Tu hwnt	Diweddwyd e.e. tynnwyd yn ôl	% o fewn amser, a ddiweddwyd	Nifer y cwynion	Nifer o fewn amser	Tu hwnt	Diweddwyd e.e. tynnwyd yn ôl	% o fewn amser, a ddiweddwyd	Nifer y cwynion	Nifer o fewn amser	Tu hwnt	Diweddwyd e.e. tynnwyd yn ôl	% o fewn amser, a ddiweddwyd	Cyfanswm cwynion	O fewn terfynau amser	% o fewn amser, a ddiweddwyd
Ebrill	3	3			100%	2	2			100%	0	0				5	5	100%
Mai	3	3			100%	2	1	1		50%	0	0				5	4	80%
Mehefin	2	2			100%	2	2			100%						4	4	100%
Gorffennaf																0	0	
Awst																0	0	
Medi																0	0	
Hydref																0	0	
Tachwedd																0	0	
Rhagfyr																0	0	
Ionawr																0	0	
Chwefror																0	0	
Mawrth																0	0	
Cyfanswm	8	8	0	0	100%	6	5	1	0	83%	0	0	0	0		14	13	93%

Tabl 3: Amseroedd ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i gwynion yn ystod Chwarter 1. Rhoddir gwybod am ddata'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân bellach gan fod y broses a'r graddfeydd amser yn wahanol.

Maes Gwasanaeth	Nifer	%
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	0	0%
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	0	0%
Cynllunio Busnes a Pherfformiad	0	0%
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	1	1%
Gwasanaethau Cwsmeriaid	2	2%
Yr Amgylchedd	41	41%
Cyllid ac Asedau	0	0%
Gwasanaethau Tai	18	18%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	18	18%
Priffyrdd ac Isadeiledd	13	13%
Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol	6	6%
Moderneiddio Addysg	0	0%
Gwella Ysgolion a Chynhwysiant	0	0%
	99	

Tabl 4: Cwynion a dderbyniwyd yn ystod Chwarter 1

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Medi 2013
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad / Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Gwella Corfforaethol
Teitl:	Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012/13

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref pob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2012/13.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn i'r Aelodau graffu ar yr adroddiad drafft, sydd wedi ei atodi yn Atodiad 1, cyn caiff y drafft terfynol ei gyflwyno i'r Cyngor ar 8 Hydref 2013.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newid y cytunwyd arno, bod Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012/13 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir er cymeradwyaeth.

4. Manylion am yr Adroddiad.

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 y Cyngor yn nodi cyfeiriad strategol a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod pum mlynedd. Mae manylion yr hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud pob blwyddyn i gynorthwyo gyda chyflawni'r blaenoriaethau wedi eu nodi yn y cynlluniau gwasanaethau blynyddol ac yn Nogfen Gyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol. Mae gan y Cyngor hefyd amryw o amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a chyfres o Gytundebau Canlyniad gyda Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei ymrwymadau yn ystod 2012/13, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus.

4.3 Mae amseru'r adroddiad hwn yn aml iawn yn anodd oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o wybodaeth sydd ei hangen i ddeall ein perfformiad (e.e. data cymharol ar gyfer holl gynghorau Cymru) ar gael nes bron i ddiwedd terfyn amser yr adroddiad. Mae hyn yn fwy o broblem rŵan gan fod gennym ni system reoli perfformiad mwy soffistigedig yn seiliedig ar drothwyon rhagoriaeth yn hytrach na thargedau wedi eu pennu'n lleol. Cyhoeddwyd data cenedlaethol ar 4 Medi, a oedd yn rhoi ychydig iawn o amser i ni werthuso ein sefyllfa gymharol a chwblhau'r adroddiad drafft erbyn 10 Medi.

